**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Sophie Howe
Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

14 Tachwedd 2019

Annwyl Sophie,

Diolch am wahodd y Pwyllgor i gynnig sylwadau am yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol sydd yn yr arfaeth gennych. Byddwch yn ymwybodol inni gynnal sesiwn gyda rhanddeiliaid y mis hwn i ddeall yn well eu rôl o ran gweithio gyda chi a'ch swyddfa. Yn ystod y sesiwn, gwnaethom hefyd ofyn am eu barn am y meysydd a ddylai gael eu cynnwys yn eich adroddiad. Yn seiliedig ar hyn, rydym yn cynnig y sylwadau canlynol.

Credwn y bydd yn bwysig dysgu o effaith y camau a gymerwyd eisoes a sut y gall y rhain ddylanwadu ar newid yn y dyfodol. Dylai'r adroddiad felly ddangos effeithiau a chanlyniadau eich gwaith dros y tair blynedd diwethaf, gan nodi'r sylfaen dystiolaeth glir i ddylanwadu ar syniadaeth yn y dyfodol. Dylid asesu'r effaith gafodd eich swydd o ran cefnogi cyrff cyhoeddus i greu polisi da a gwneud penderfyniadau da sydd wedi'u fframio gan y Ddeddf, ond ni ddylai fod yn adroddiad ar gynnydd y sector cyhoeddus yn unig.

Dylai fod ffocws clir ar y dyfodol, gan ddangos yn glir i ba gyfeiriad y mae angen inni fynd.  Mae hyn yn gyfle gwirioneddol i rannu dadansoddiad cadarn am dueddiadau yn y dyfodol, yr hyn y gallem ei gasglu o hynny, a rhai senarios ar gyfer gweithredu cadarnhaol. Credwn y bydd y dull hwn yn ddefnyddiol i'r sector cyhoeddus o ran cynllunio, newid meddyliau ac ati, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol.

Yn yr adroddiad dylech roi mwy o bwyslais ar gyrff cyhoeddus yn cyflawni nod 'Cymru Gydnerth', yn enwedig mewn perthynas â'r argyfwng o ran yr hinsawdd a byd natur. Mae'r amgylchedd yn hanfodol i ddyfodol iach, ac felly dylid canolbwyntio ar hyn yn benodol. Dylai'r adroddiad hefyd nodi eich blaenoriaethau chi ar gyfer y dyfodol, a bod yn glir ynghylch a fydd eich blaenoriaethau presennol yn parhau am weddill eich cyfnod yn y swydd, ynteu a ydyn nhw'n debygol o newid.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Efallai eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliadau i gysgu ar y stryd ac eiddo gwag yn ddiweddar; mae'r ddau ymchwiliad yn gorgyffwrdd â'r gwaith i gyflawni rhai o'r nodau llesiant. Efallai yr hoffech chi ystyried y rhain wrth ystyried eich gwaith ym maes blaenoriaeth tai.

Yn olaf, dylai'r cyhoedd allu teimlo cysylltiad â'r adroddiad; rhaid iddo fod yn adroddiad apelgar, a rhywbeth y gall pobl "gydio ynddo" a theimlo eu bod yn rhan ohono. Mae hyn yn bwysig oherwydd y bydd gan y cyhoedd ran allweddol i'w chwarae wrth hyrwyddo'r newid angenrheidiol.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi wrth ichi baratoi eich adroddiad.

Yn gywir

John

John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.